

*Patrwm cyflwyno O fis Tachwedd i fis Ebrill*

*Disgrifiad o'r cwrs*

Mae'r cwrs hwn yn seiliedig ar y dyb bod newid yn dreiddiol ac yn rhywbeth na ellir ei osgoi - mae'n rhan anochel o reoli bob dydd mewn sefyllfaoedd sy'n amrywio o'n bywydau personol i'r gweithle a thu hwnt i mewn i'r gymdeithas yn gyffredinol. Ond yn hytrach na derbyn newid a ddaw i'w rhan yn oddefol, bydd y cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau meddwl ac ymarfer i fyfyrwr lunio natur a chyfeiriad newid. Bydd yn gwneud hyn drwy ddatblygu eu galluoedd i reoli newid systemig. Mae hwn yn gwrs am ymgysylltu â newid neu ei roi ar waith a dysgu gan ddefnyddio systemau meddwl ac ymarfer. Ei ddiben yw galluogi myfyrwr, a'r rhai hynny sy'n byw neu'n gweithio gyda nhw, i allu rheoli newid yn well er mwyn osgoi methiannau systematig, i gael gweithredoedd integredig neu gydgyssylltiedig gwell ymysg rhanddeiliaid, ar hyd cadwyni cyflenwi, mewn prosiectau neu mewn gweithredu cymdeithasol hyd yn oed. Mae'n anelu at herio eu ffyrdd arferol eu hunain ac eraill o feddwl ac ymddwyn. Mae ymchwil yn dangos bod arweinwyr rhagorol yn defnyddio cyfuniad o feddwl ac ymddwyn systematig er budd hirdymor eu sefydliadau. Maent yn cydnabod natur ryng-gysylltiedig y sefydliadau a'u hamgylcheddau ac felly'n gweithredu'n ofalus. Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i ddatblygu'r galluoedd hyn.

*Manyleb person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y cwrs hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gwybodaeth am faes systemau meddwl ac ymarfer a defnyddio syniadau a chysyniadau i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd mewn prosiectau neu sefyllfaoedd proffesiynol eraill
- profiad o roi systemau meddwl ac ymarfer ar waith er mwyn reoli newid neu ddylanwadu arno
- dealltwriaeth dda o'r amrywiaeth o draddodiadau systemau a'r prif nodweddion tebyg/gwahanol rhwng dulliau gweithredu systemau
- gwybodaeth am ymchwilio systematig a systemau dysgu cymdeithasol
- parodrwydd i ymgymryd â'r cwrs fel dysgwr yn ogystal â hwyluso'r hyn y mae eraill yn ei ddysgu
- gallu i greu amgylchedd dysgu diogel i fyfyrwr sy'n debygol o gael eu herio gan ddeunyddiau'r cwrs ac ymwybyddiaeth o'ch bydolwg eich hun a pharch tuag at fydolwg pobl eraill
- gwerthfawrogiad o'r ffordd y gellir addasu ymarfer systemau mewn ffyrdd sy'n sensitif i'r cyd-destun drwy gynllunio pwrpasol.

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- awydd i helpu myfyrwr i gyfrannu at newid cymdeithasol cadarnhaol
- gwerthfawrogiad o'r cynhwysion sydd eu hangen ar gyfer cymunedau ymarfer llwyddiannus
- profiad o ymgysylltu ag ymarfer proffesiynol adlewyrchol
- profiad o wneud gwaith ymchwil gweithredu.

*Gwybodaeth Ychwanegol*

- Rhoddir ffafriaeth i ymgeiswyr sydd â rhywfaint o hyfforddiant ôl-raddedig, mewn maes sy'n ymwneud â materion cymdeithasol cymhleth ac ymarfer proffesiynol myfyriol yn ddelfrydol.

*Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safon:	15
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	5.5

*Gallai fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.*

